Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

30 Medi 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Amcangyfrif Blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2025-26**

Rwyf yn falch i amgáu Amcangyfrif Blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 mewn perthynas â'n gweithgareddau datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys busnes craidd, costau digwyddiadau uniongyrchol a gwaith prosiect Cynllunio Corfforaethol ychwanegol sy'n dod i gyfanswm o £2,742,123 (gweler y tabl isod am gymhariaeth â'r gyllideb yn 2024/25).

| Wales | 24/25 £k | 25/26 £k | Variance |
|---|---|---|---|
| Core | £ 1,441 | £ 1,315 | -8.7% |
| Event | £ 124 | £ 1,216 | 883.5% |
| CP | | £ 211 | |
| Total | £ 1,564 | £ 2,742 | 75.3% |

## Fframweithiau strategol

Fel y byddwch yn ymwybodol, ategir ein hamcangyfrif gan ein Cynllun Corfforaethol y Senedd ar swyddogaethau datganoledig yng Nghymru. Hyd y Cynllun yw pum mlynedd. Mae'r cynllun cyfredol yn rhedeg o 2022/23 i 2026/27 a gellir dod o hyd iddo yma. Bydd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer Cymru yn cael ei ddrafftio, bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn ei gylch a bydd y Cynllun yn cael ei osod yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Yn dilyn etholiad cyffredinol diweddar Senedd y DU, mae'n rhaid i ni hefyd ddatblygu cynllun newydd, pum mlynedd o hyd, ar gyfer y DU i'w gyflwyno i Bwyllgor y Llefarydd ochr yn ochr â'r prif amcangyfrif ar gyfer 2025/26. Yn bresennol mae'n rhaid i'r cynllun

hwn gael ei gyflwyno ar yr un pryd i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban er mwyn ystyried y rhannau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau datganoledig yn yr Alban. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn Bil Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio) sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn Senedd yr Alban a fydd, os caiff ei basio, yn ei wneud yn ofynnol i ni gyflwyno cynllun pum mlynedd o hyd ar ôl etholiad Senedd yr Alban.

Rydym felly mewn sefyllfa lle mae gennym, neu bydd gennym, dri chynllun ar wahân sy'n adlewyrchu ein tri chyfrifoldeb statudol sy'n deillio o'r Senedd, Senedd y DU a Senedd yr Alban. Er y bydd rhai pethau'n wahanol, gan adlewyrchu cyd-destunau pob awdurdodaeth, mae llawer o'r themâu trosfwaol, sef cefnogi pleidleiswyr; moderneiddio'r system etholiadol tra'n diogelu ein democratiaeth a mynd i'r afael â'r bygythiadau y mae'n eu hwynebu, yn gyffredin i bawb – a byddwn yn sicrhau eu bod yn gyson. Ein nod yw chwarae ein rhan i sicrhau gwytnwch y system ddemocrataidd ehangach ac adeiladu Comisiwn Etholiadol cryfach i gyflawni hynny.

Dros y flwyddyn sydd i ddod yng Nghymru, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r newidiadau newydd i etholiadau'r Senedd yn 2026, fel y nodir isod. Byddwn hefyd yn dechrau gwaith i gyflawni'r amcanion a'r nodau i'w cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y DU y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2025. Bydd y gwaith hwn yn llywio datblygiad Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cymru a bydd yn cael ei ystyried yn yr un modd wrth i ni ddatblygu Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr Alban ar ôl mis Mai 2026 i'w ystyried gan Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban.

Rydym wedi dilyn y Datganiad Egwyddorion Cyllido a nodwyd yn 2021 gan bob un o'r tri chorff cyllido sy'n ei gwneud yn ofynnol bod costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i etholiadau, a gweithgareddau adnabyddadwy ar wahân eraill o dan bwerau pob deddfwriaeth, yn cael eu cyllido gan y corff hwnnw, tra bod gwariant nad yw'n uniongyrchol briodoladwy yn cael ei rannu ar sail poblogaeth ym mhob gwlad.

Mae'r fformiwla cyllido ar gyfer y cynnig arfaethedig am gyllid wedi'i haddasu flwyddyn ar ôl blwyddyn i adlewyrchu'n fwy cywir meintiau poblogaeth pob un o'r tair Senedd gan ddefnyddio data SYG. Mae costau craidd y Comisiwn ar gyfer gweithgarwch a rennir - fel y gefnogaeth barhaus i bleidleiswyr, gweinyddwyr a'r gymuned reoledig, yn ogystal â'r costau corfforaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Comisiwn - yn cael eu dyrannu ar fformiwla yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth gan ddefnyddio ystadegau poblogaeth y SYG. Mae'r dyraniad i Gymru yn 4.6%, gydag 8.1% wedi'i ddyrannu i'r Alban ac 87.3% wedi'i ddyrannu i San Steffan. Lle mae galw penodol am waith ychwanegol sy'n effeithio ar randdeiliaid yng Nghymru yn unig, h.y. Etholiad mis Mai 2026, caiff y costau hyn eu dyrannu yn 100% i'r senedd ddatganoledig.

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

Yn yr Amcangyfrif, gan ddefnyddio’r fformiwla uchod o 4.6%, rydym wedi cyfrifo mai cyfran Pwyllgor y Llywydd o gostau craidd yw £1,315,496. Ar gyfer Cymru, mae hyn yn golygu cyfraniad is i gostau craidd y Comisiwn o gymharu â 2023/24.

Rydym yn cydnabod yr hinsawdd ariannol y mae'r amcangyfrif hwn yn cael ei wneud ynddi ond teimlwn y gallwn gyfiawnhau ein cais o ystyried y tasgau a wynebir a phwysigrwydd ein democratiaeth. Datgelodd ein Harolwg Olrhain Agweddau’r Cyhoedd Blynyddol mai dim ond 33% o'r cyhoedd yng Nghymru oedd yn fodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yn y DU.

Rydym yn ceisio egluro isod pam fod ein hamcangyfrif wedi’i gyflwyno ac rydym yn edrych ymlaen at drafod hyn gyda chi pan fydd hynny’n gyfleus.

## Ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2025-26

### Parhau â’n gweithgareddau craidd

Fel nifer o sefydliadau eraill, mae’r Comisiwn yn wynebu costau wedi’u cynyddu o ganlyniad i gynnydd mewn cyflogau a phwysau chwyddiant di-dâl. Fe welwch o’r amcangyfrifon atodedig ein bod wedi cyflwyno arbedion i chi ar gyfer weithgareddau craidd y rhan fwyaf o dimau, ac eithrio pan fyddwn yn disgwyl mwy o weithgarwch yn ymwneud ag etholiadau’r Senedd sydd i ddod. Rydym yn parhau â'n gwaith i gryfhau'r Comisiwn trwy fuddsoddiadau yn ein timau cyllid, caffael ac Adnoddau Dynol a’n timau cymorth eraill, a nodir isod. Byddwn yn parhau â'n gwaith rheoleiddio, canllawiau, gwerthuso, ymchwil, ymgyrchoedd a chyfathrebu, yn enwedig ar ôl etholiad cyffredinol Senedd u DU 2024, ac i baratoi ar gyfer yr etholiadau yn 2026.

### Cefnogi'r gwaith o gyflawni etholiad y Senedd a gynhelir yn dda yn 2026

Mae ffocws gwaith y Comisiwn yng Nghymru yn y flwyddyn sydd i ddod, ac a adlewyrchir yn ein hamcangyfrif, yn nodi sut rydym yn bwriadu rheoli ein gwaith yn effeithiol yn arwain at etholiad y Senedd yn 2026. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod newidiadau sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd sy'n effeithio ar sut y bydd yr etholiad yn cael ei weinyddu a'i reoleiddio yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn cael eu deall gan bawb sy’n cymryd rhan, pleidleiswyr, pleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid a gweinyddwyr. Cyflawnir hyn drwy ddrafftio a chyflwyno canllawiau manwl i'r rhai sy'n cynnal yr etholiad a'r rhai sydd am gymryd rhan.

Byddwn yn adeiladu ar ein profiad a'n harbenigedd yn y maes hwn nid yn unig wrth ddatblygu a chyhoeddi canllawiau safonol ar gyfer pob partner, ond hefyd i adeiladu adnoddau newydd lle bo angen, er enghraifft, wrth gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru ar ddewis ymgeiswyr ar ôl i Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gael ei dynnu’n ôl. Byddwn yn hwyluso sesiynau briffio wedi'u teilwra sy’n esbonio'r newidiadau

a sut y gellir eu gweithredu'n effeithiol gyda'r holl grwpiau partner perthnasol. Fel rhan o’r broses hon byddwn hefyd yn gwerthuso effaith y newidiadau hyn a’r broses etholiadol ehangach ac yn ystyried y maes hwn fel rhan o’r adroddiad statudol ar ôl y bleidlais a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2026/27.

Mae gweithgareddau o'r fath yn briodaladwy i gost etholiad y Senedd ac wedi’i gyllido’n uniongyrchol gan Bwyllgor y Llywydd. Fel yr ydym wedi nodi’n flaenorol, gellir ystyried bod gan gyllid y Comisiwn gylch o bum mlynedd. Gall gweithgareddau sy’n ymwneud ag etholiadau datganoledig rychwantu blynyddoedd ariannol. Ar gyfartaledd, mae gan y flwyddyn cyn etholiad y Senedd ddau draean o gost uniongyrchol yr etholiad. Yn y flwyddyn ariannol ganlynol gwelir y traean sy’n weddill o etholiad y Senedd a dau draean o gostau uniongyrchol yr etholiadau awdurdodau lleol. Bydd y flwyddyn ar ôl hynny yn gweld y traean olaf o gostau sy’n uniongyrchol briodoladwy i’r etholiadau cynghorau. Wedi hynny, cymharol ychydig o gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i etholiadau yn y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae’r amcangyfrif ar gyfer 2025-26 ar gyfer y costau uniongyrchol sy’n briodoladwy i’r Senedd yn cynnwys swm o £1,215,878.

### Ymgysylltu â’r cyhoedd ac ymwybyddiaeth gyhoeddus

Mae amcangyfrif 2025-26 yn cynnwys £1,025,000 i gwmpasu costau ym mlwyddyn gyntaf ymgyrch dwy flynedd ar gyfer gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o etholiad y Senedd yn 2026. Rydym wedi cyllidebu £650,000 ar gyfer ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i gwmpasu creu asedau penodol y Senedd, prynu cyfryngau ac ymchwil olrhain. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ac yn anfon llyfryn gwybodaeth ddwyieithog at bob aelwyd yng Nghymru a fydd yn costio £375,000. Gyda’i gilydd mae’r costau hyn yn gwneud 87% o’r cynnydd yn ein cyllideb ar gyfer 2025-26 o gymharu â 2024-25.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiwn y Senedd a'r gymuned etholiadol ehangach byddwn yn sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o'r newidiadau i system etholiadol y Senedd. Byddwn yn canolbwyntio ar arwain ar ddatblygiad cyfres o ddeunyddiau ymwybyddiaeth y cyhoedd gan gynnwys llyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr a fydd yn cael ei anfon i bob aelwyd yng Nghymru, sy’n cynnwys gwybodaeth am sut i bleidleisio o dan y system newydd. Yn ogystal, byddwn yn rhedeg ymgyrch cofrestru pleidleiswyr taledig ac yn datblygu asedau cysylltiedig wedi'u targedu at bobl ifanc 16-17 oed sy'n byw yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio ein partneriaethau cymdeithas ddinesig i gefnogi ein hymgyrchoedd a datblygu prosiectau partneriaeth newydd sy'n cynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfranogiad o'r system ddemocrataidd ymhlith grwpiau sydd wedi’u tan-gofrestru yng Nghymru. Mae ein rhaglen addysg ddemocrataidd nawr yn ei phedwaredd flwyddyn, ac mae hon yn parhau i fod yn faes cynyddol bwysig o'n gwaith. Ei nod yw

effeithio ar newid cyson a dwys i ymgysylltu yn y broses ddemocrataidd ymhlith pobl ifanc.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein hadnoddau addysg ddemocrataidd ar gyfer athrawon a dysgwyr yng Nghymru cyn yr etholiad yn 2026, gan adlewyrchu'r newidiadau i'r system.

Bydd hyn yn cynnwys datblygiad pellach ein cynnig o hyfforddiant i gynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Yng Nghymru, mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn athrawon yn parhau i fod yn gyson uchel ar 71%, sy'n eu gwneud yn bartner allweddol wrth sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Byddwn yn gweithio gyda'n partner llais ieuenctid, Plant yng Nghymru, i gasglu mewnbwn gan bobl ifanc trwy ein rhwydwaith llais ieuenctid fel y gallwn sicrhau bod ein hadnoddau addysg yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymdeithas ddinesig yng Nghymru i gefnogi grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hyder i gymryd rhan yn y system ddemocrataidd. Bydd hyn yn cynnwys partneriaethau a ariennir, ochr yn ochr â darnau anffurfiol llai o waith sy'n cefnogi ein hymgyrch cofrestru, a'n gwaith ymgysylltu â phleidleiswyr yn ehangach.

Yn olaf, rydym hefyd wedi lansio Fforwm Addysg Ddemocrataidd newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i adeiladu gwybodaeth, rhannu arfer gorau a chael adborth gan athrawon ledled Cymru.

### Diwygio etholiadol

Byddwn yn parhau i gefnogi agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu cyngor arbenigol a her adeiladol i sicrhau bod y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer y set nesaf o etholiadau datganoledig yn gallu cael eu cyflawni'n llwyddiannus ar gyfer pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

Gan fod Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 bellach wedi'u pasio gan y Senedd, byddwn yn canolbwyntio ar roi'r newidiadau hyn ar waith cyn yr etholiad yn 2026. Byddwn yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu Gorchymyn Ymddygiad newydd ar gyfer 2026, yn ogystal â'r darnau eraill o is-ddeddfwriaeth y bydd eu hangen.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar y darnau hynny o is-ddeddfwriaeth sy'n dal i gael eu datblygu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan ar ddatblygu cynlluniau peilot cofrestru awtomatig a byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot hyn

fel rhan o’n cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Cefnogir ein gwaith yn y maes hwn gan y sylfaen dystiolaeth sylweddol a ddatblygwn trwy ein rhaglen waith ar foderneiddio etholiadol, gan gynnwys yr ymchwil yr ydym yn parhau i'w chynnal gyda'r cyhoedd a gweinyddwyr etholiadol. Mae ein rhaglen ymchwil barhaus yn sicrhau bod ein cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfoes o agweddau'r cyhoedd, i fod yn sail i ddatblygu cynigion polisi ar gyfer moderneiddio pellach.

### Cefnogi cyflawni etholiadau a gynhelir yn dda a chofrestru etholiadol

Byddwn yn darparu cymorth i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru drwy raglen o ymgysylltu rheolaidd, gan gynnwys darparu cyngor ac arweiniad ac ymateb i unrhyw ymholiadau a materion. Byddwn yn monitro perfformiad yn erbyn ein safonau perfformiad cyhoeddedig, a byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o-safonau i sicrhau eu bod yn berthnasol yng Nghymru, yn enwedig o ran yr iaith Gymraeg.

Ym mis Tachwedd, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad llawn ar etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2024 a’r etholiadau ym mis Mai yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn tynnu ar ein cyfres lawn o dystiolaeth a data – gan gynnwys gan bleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, a gweinyddwyr etholiadol – ac yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau ehangach i etholiadau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol, y cyfryngau a sefydliadau cymdeithas sifil i godi ymwybyddiaeth o’r mesurau hygyrchedd newydd mewn gorsafoedd pleidleisio; sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu ymgyrchu a dadlau gyda'i gilydd mewn amgylchedd sy'n rhydd rhag camdriniaeth a bygythiadau; a gweithio gyda llywodraethau’r DU a’r gymuned etholiadol ehangach i sicrhau bod gan weinyddwyr ddigon o amser, gallu ac adnoddau i barhau i ddarparu etholiadau a gynhelir yn dda. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i dynnu ar, ac adlewyrchu, unrhyw wersi ehangach a ddysgwyd o'r etholiadau yn 2024 ymhell cyn etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2026.

Edrychwn ymlaen at gynorthwyo a chefnogi'r Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol newydd a byddwn yn defnyddio'r fforwm newydd hwn i helpu Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel ar gyfer pleidleiswyr a'r rhai sy’n sefyll mewn etholiad. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol ledled Cymru i sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn ein gwaith.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid rheoleiddio a rhanddeiliaid ehangach

Bydd y Comisiwn yn parhau i ddefnyddio’r Panel Pleidiau'r Senedd i ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol ac i ddeall y ffordd orau y gallwn eu helpu nhw a’u hymgeiswyr i

ddelio â'r heriau sy'n eu hwynebu. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â phleidiau llai yng Nghymru ac ymgeiswyr annibynnol i'w helpu i gydymffurfio â'r rheolau. Bydd hyn yn cynnwys cyngor a chanllawiau wedi'u teilwra i anghenion yng Nghymru, cyhoeddi manylion rhoddion, benthyciadau a chyfrifon blynyddol pleidiau, a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth gyda chyfraith cyllid ariannol.

Yn ogystal, byddwn yn darparu sesiynau hyfforddi cyn etholiad y Senedd yn 2026 ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau newydd. Cynhelir yr hyfforddiant hwn mewn cynadleddau pleidiau, sesiynau briffio wyneb i wyneb a thrwy blatfformau digidol. Byddwn hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol drwy fynychu eu sesiynau briffio i ymgeiswyr ac asiantiaid a darparu hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid yn y sesiynau briffio hynny.

Ar gyfer yr etholiad yn 2026 byddwn yn datblygu Cod Ymarfer ar wariant yn etholiad y Senedd ar gyfer Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau, a Chodau Gwariant i Bleidiau ac Ymgeiswyr yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd y Codau Ymarfer hyn yn cael eu gosod gerbron y Senedd.

Byddwn yn parhau i hysbysu Aelodau o'r Senedd am ein gwaith, gan gynnwys drwy sesiynau briffio, sesiynau galw i mewn a chyfarfodydd personol. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â chynlluniau i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar Ddemocratiaeth, i ddarparu fforwm i Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid allweddol i drafod materion yn ymwneud â democratiaeth ac etholiadau yng Nghymru.

## Cynllun Corfforaethol Drafft y DU ar gyfer 2025

Mae ein Cynllun Corfforaethol Drafft y DU ar gyfer 2025-2030 yn nodi pum amcan strategol a fydd yn cael effaith ar etholiadau a gynhelir yng Nghymru.

Wrth gyflawni ein holl swyddogaethau statudol, mae'r Comisiwn yn ceisio sicrhau bod ein system ddemocrataidd yn gweithio ar gyfer pob rhan o'r DU, gan ymateb i fentrau sy'n digwydd mewn etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir yn ôl ac i bawb sy'n cymryd rhan boed hynny fel pleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr neu weinyddwyr. Rydym yn ceisio ymgynghori ar ein cynigion gyda llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, a grwpiau rhanddeiliaid etholiadol fel y Byrddau Rheoli Etholiadol yng Nghymru a'r Alban a Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon. Yn ehangach, wrth i ni gwblhau ein cynllun, byddwn yn ceisio barn ar ein cynigion gan ystod eang o'n rhanddeiliaid, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, gweinyddwyr etholiadol, cynrychiolwyr cymdeithas sifil a phartïon eraill sydd â diddordeb. Mae amseriad Etholiad Cyffredinol Senedd y DU wedi golygu nad ydym wedi cael cyfle i drafod y gweithgareddau yng Nghynllun Corfforaethol drafft y DU cyn cyflwyno'r amcangyfrif ond gallwn wneud hynny nawr.

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

O ystyried y dyddiadau cau statudol gwahanol sydd yn eu lle ar gyfer cyflwyno cyllidebau i’r tair Senedd sy’n cyllido, a’r heriau sy’n codi o ganlyniad i hyn, teimlwn fod yn rhaid i ni ddarparu rhai o’r costau arfaethedig ar gyfer gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a chredwn y bydd o fudd i bleidleiswyr yng Nghymru cyn yr etholiadau yn 2026 a chyhoeddiad ffurfiol y cynllun yn gynnar yn 2025.

Yr amcangyfrif ar gyfer 2025-26 ar gyfer costau sy’n briodoladwy i’r Senedd ar gyfer gweithgarwch perthnasol o ran y Cynllun Corfforaethol yw £210,749.

**Amcan 1: Cefnogi Pleidleiswyr yng Nghymru**

Mae’r dystiolaeth yn dangos bod pleidleiswyr yng Nghymru angen gwybodaeth well (ar-lein yn ddelfrydol) ynghylch sut i gofrestru a phleidleisio. Ar gyfer pleidleiswyr sydd ag anghenion hygyrchedd, mae cofrestru a bwrw eu pleidlais yn aml yn parhau i fod yn heriol.

Mae gennym dystiolaeth gref bod ein gwaith ymgysylltu â phleidleiswyr presennol yn cael effaith gadarnhaol – er enghraifft, cymerodd 512,000 o bobl ifanc ledled y DU ran yn ein mentrau Wythnos Croeso i Dy Bleidlais ym mis Chwefror 2024 gyda 71% o addysgwyr yn dweud bod gwybodaeth pobl ifanc am ddemocratiaeth wedi cynyddu, a 57% yn dweud bod y tebygolrwydd o’u pobl ifanc yn cofrestru i bleidleisio wedi cynyddu. Byddwn yn uwchraddio ein gwaith addysg a phartneriaeth ac yn ehangu ein cefnogaeth strategol i dimau presennol yng Nghymru gyda ffocws penodol ar weithio gydag athrawon a grwpiau elusennau. Gwneir hyn drwy weithio ar y cyd â'r holl bartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys y Senedd, y Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cyd-greu deunyddiau sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion partneriaid ac yn cefnogi pleidleiswyr i ddatblygu sgiliau llythrennedd gwleidyddol a llythrennedd y cyfryngau, gan leihau effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Byddwn yn barod i ymateb i agenda ddeddfwriaeth ddatblygol Llywodraeth Cymru a pharhau i ddarparu gwybodaeth hygyrch sy’n benodol i’r cod post ar gyfer pob pleidleisiwr yng Nghymru. Byddwn yn harneisio offer digidol i wneud ein data cyhoeddedig yn fwy tryloyw.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i ariannu'r Democracy Club i ddarparu ein gwybodaeth etholiadol a’r adnodd chwilio am orsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau mis Mai 2026 - mae hwn yn declyn hanfodol i bleidleiswyr sydd hefyd yn lleddfu'r pwysau ar dimau gwasanaethau etholiadol yng Nghymru. Mae’r Democracy Club wedi nodi y byddant yn rhoi’r gorau i ddarparu’r gwasanaeth hwn, felly drwy weithio mewn partneriaeth, a manteisio ar y cynlluniau peilot hygyrchedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bydd y Comisiwn yn datblygu ein hofferyn chwilio ein hunain y disgwyliwn iddo fod yn weithredol cyn yr etholiadau ym mis Mai 2027.

Y Comisiwn Etholiadol | The Electoral Commission

**Amcan 2: Moderneiddio’r system etholiadol**

Mae’r system etholiadol a’r fframwaith cyfreithiol sy’n ei thanategu wedi esblygu mewn modd tameidiog. Mae'r system gymhleth sy’n deillio o hyn yn cyflwyno heriau sylweddol i dimau gwasanaethau etholiadol sydd dan bwysau i gyflawni mwy am lai. Mae'r heriau gweinyddol hyn hefyd yn golygu bod rhai pleidleiswyr yn profi problemau wrth geisio bwrw eu pleidlais - er enghraifft pleidleiswyr sydd newydd eu rhyddfreinio yng Nghymru.

Rydym yn eirioli dros gyfuno a symleiddio fel rhan o raglen diwygio’r gyfraith. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yng Nghymru sydd newydd ei sefydlu i leddfu'r pwysau ar dimau gwasanaethau etholiadol ond mae ein profiad o gyflawni ein rhaglen waith bresennol yn dangos yn glir bod angen i ni wneud mwy i ddiwallu anghenion timau gwasanaethau etholiadol ac ymgyrchwyr. Byddwn yn cynyddu’r cymorth a ddarparwn i weinyddwyr etholiadol, yn moderneiddio ein dull o ddarparu canllawiau, ac yn gweithio gyda chyflenwyr allweddol i gyflawni mwy o effeithlonrwydd a gwelliannau systemig. Yn y pen draw bydd y mentrau hyn yn ceisio adeiladu gwydnwch cryfach a system etholiadol sy’n fwy cadarn.

**Amcan 3: Diogelu’r system / mynd i’r afael â bygythiadau**

Mae’r bygythiadau i’n democratiaeth yn tyfu ac yn newid. Mae pleidleiswyr yn dod yn fwyfwy agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth ac mae arferion ymgyrchoedd amheus yn parhau i danseilio ymddiriedaeth. Dyma ail bryder mwyaf y cyhoedd o gwmpas etholiadau, y tu ôl i ragfarn yn y cyfryngau. Adroddodd ymgyrchwyr ac ymgeiswyr y lefelau uchaf erioed o fygythiadau ar-lein, corfforol a rhyweddol yn etholiad cyffredinol diweddar Senedd y DU ac mae ymyrraeth dramor ar ffurf ymosodiadau seiber yn achosi aflonyddwch i etholiadau.

Rydym yn bwriadu cynyddu gwaith monitro a lliniaru bygythiadau i’n democratiaeth. Byddwn yn parhau i fonitro a chynghori ar y risgiau hyn bob dydd, gan weithio ar y cyd â'r holl bartneriaid perthnasol yng Nghymru gan gynnwys y pedwar heddlu. Wrth i’r bygythiadau hyn gynyddu, a chyn etholiad y Senedd yn 2026, mae angen i ni gryfhau ein hymateb. Byddwn yn defnyddio data a thechnoleg yn fwy effeithiol i nodi a dileu

cynnwys digidol sydd wedi'i anelu at danseilio ein democratiaeth; mynd i'r afael â thechnegau ymgyrchu a gynlluniwyd i dwyllo pleidleiswyr; yn darparu mwy o gefnogaeth i ymgeiswyr; a gyda’r heddlu, byddwn yn mynd i'r afael â chamdriniaeth a bygythiadau. Byddwn yn parhau i gryfhau ein hamddiffyniadau yn erbyn bygythiadau seiber presennol a newydd; yn tynhau rheolaethau ar roddion gwleidyddol, ac yn cau bylchau o ran cyllid cwmnïau tramor a rhoddion gan gymdeithasau anghorfforedig.

Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

## Amcan 4: Gwydnwch y system ddemocrataidd

Yn ein rôl rheoleiddio rydym yn monitro lles ein democratiaeth ac yn gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o gryfhau'r system etholiadol. Mae ein Harolwg Olrhain Agweddau'r Cyhoedd Blynyddol yn dangos bod ymddiriedaeth yn y Comisiwn Etholiadol yn parhau i fod yn uchel. Ein nod yw cynyddu ychydig ar ein gwaith polisi rhagweithiol a'n dadansoddi rhyngwladol. Bydd tystiolaeth yn parhau i fod wrth

wraidd yr argymhellion a wnawn. Byddwn yn gallu gwneud mwy i ddod â chwaraewyr allweddol ynghyd i gytuno ar fentrau effeithiol sy'n gwella ein system etholiadol a'u rhoi ar waith. Byddwn yn cynnal ymchwil cydgynghorol i lywio'r gwaith hwn yng Nghymru, yn seiliedig ar anghenion y Senedd a Llywodraeth Cymru fel ein bod yn deall ac yn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau yng Nghymru.

## Amcan 5: Cryfhau'r Comisiwn Etholiadol

Wrth i'n system etholiadol esblygu, mae angen i ni addasu i ddiwallu anghenion a disgwyliadau newidiol pleidleiswyr, Llywodraeth Cymru, ymgyrchwyr a thimau gwasanaethau etholiadol. Mae ein systemau a'n gwasanaethau cymorth cyfredol angen buddsoddiad, nid dim ond i gyflawni ein gwaith presennol, ond hefyd i gyflawni'r rhaglen waith uchelgeisiol a hanfodol bwysig hon gyda gwerth da am arian.

Byddwn yn buddsoddi yn ein systemau gan nodi pryderon blaenorol a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch ein prosesau ariannol, gan sicrhau eu bod i gyd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cynrychioli gwerth am arian. Byddwn yn datblygu mwy o arbenigedd digidol ac yn archwilio'r potensial i harneisio technolegau newydd megis deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol i gyflawni mwy o effeithlonrwydd a gwelliannau i ddefnyddwyr. Byddwn yn sicrhau bod ein holl staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'w darparu a byddwn yn eu talu'n gystadleuol am eu gwaith pwysig.

Yn dilyn yr ymosodiad seiber y llynedd, rydym wedi buddsoddi mewn cryfhau systemau'r Comisiwn. Mae manteision rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn amlwg. Nododd prawf hacio seiber annibynnol o'n systemau TG ar gyfer yn allanol nad oedd unrhyw wendidau ar ein systemau. Cynhelir y profion hyn bob chwarter ac rydym wedi gweld tynhau sylweddol yn y diogelwch ar ein systemau, gan ddefnyddio'r technegau a'r atebion diweddaraf i ddiogelu ein gwasanaethau.

Diolch i'r cyllid a ddarparwyd gennych chi a'r Seneddau eraill dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi gallu cyflawni nifer o brosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys - uwchraddio waliau tân, gydag offer logio a monitro llawn; y gwasanaeth dilysu aml-ffactor diweddaraf gan Microsoft; rheolaeth patsio cwbl awtomataidd; amnewid pob gweinydd diwedd oes; amnewid pob dyfais symudol gyda'r modelau cyfredol; ymuno â

gwasanaeth rhybudd cynnar yr NCSC; cyflwyno sganio e-bost llawn trwy Mimecast i leihau gwe-rwydo, ffugio a mewnwthiadau maleiswedd. Yn ystod y deuddeg mis nesaf byddwn yn symud i Windows 11, gan uwchraddio ein CRM a darparu gwasanaethau newydd yn ymwneud ag adfer ar ôl trychineb.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda gwerthwyr trydydd parti arbenigol i gyflawni monitro seiber ar sail 24 awr, gan ddiogelu ein systemau ac olrhain gweithgarwch amheus. Mae'r gwasanaethau hyn yn gysylltiedig â gwybodaeth seiber byd-eang ac yn cael eu diweddaru'n ddyddiol i roi lefel arall o ddiogelwch i ni.

Mae’r bygythiadau yn erbyn y Comisiwn a’r system ddemocrataidd yn parhau i esblygu. Mae ein cynigion yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r bygythiadau cynyddol hyn a lliniaru yn erbyn y bygythiad parhaus o ymosodiad seiber arall. A byddwn yn cynyddu ein gwaith gyda phleidiau gwleidyddol i gefnogi eu diogelwch seiber.

### Camau nesaf

Byddwn yn dechrau ymgynghori ar fanylion y Cynllun Corfforaethol drafft hwn ym mis Tachwedd 2024 cyn cyflwyno fersiwn terfynol ym mis Mawrth 2025. Bydd y broses ymgynghori hon yn cynnwys yr holl grwpiau partner allweddol, ac yn benodol y Senedd. Er bod y ffigurau sydd wedi'i gynnwys ar gyfer costau craidd a’r costau digwyddiadau wedi'u gosod, mae'n debygol y bydd y dosraniad ar gyfer gweithgarwch Cynllunio Corfforaethol perthnasol yn newid yn seiliedig ar ei ddatblygiad, a'r effaith debygol yw gostwng y swm terfynol sydd ei angen. Byddwn yn diweddaru’r Pwyllgor am y maes gwaith hwn.

### Gwerth am arian

Mae gallu'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian yn dibynnu ar ein gallu i optimeiddio arferion caffael, rheoli contractau yn effeithlon, rheoli risgiau, monitro a gwella perfformiad, a gwneud penderfyniadau gwybodus am ddyraniad adnoddau trwy flaenoriaethu effeithiol, tra’n sicrhau bod rheolaethau ariannol a TG ar waith ac yn weithio’n effeithiol. Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod nid yn unig yn cyflawni ein hamcanion ond hefyd yn gwneud hynny mewn modd cost-effeithiol ac effeithlon, gan ysgogi enillion mewn gwerth cyhoeddus yn y pen draw.

Yn dilyn gwersi a ddysgwyd o gylchoedd ariannol blaenorol, mae modelau’r gyllideb wedi'u hailadeiladu a'u gwneud yn lled-awtomataidd i leihau'r risg o gamgymeriadau. Mae hyn wedi caniatáu amser ychwanegol ar gyfer gwaith craffu ymhellach ar y niferoedd a'r rowndiau niferus o herio mewnol i sicrhau bod costau’n gadarn ac yn rhoi gwerth am arian, gan ein galluogi i nodi arbedion lle y gallwn o fewn y Comisiwn, gan gynnwys is-brydlesu rhan o Swyddfa’r Comisiwn yn Llundain yn Bunhill Row i Gomisiwn

Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr am £105,000 y flwyddyn, sy'n gostwng cyfran y Senedd o'r costau.

Er gwaethaf pwysau chwyddiant uchel parhaus sy'n effeithio ar gostau tâl a di-dâl y Comisiwn dros y tair blynedd diwethaf, byddwn yn parhau i geisio lliniaru chwyddiant lle bynnag y bo modd. Mae'r gost fel cyfartaledd fesul aelod o'r boblogaeth yng Nghymru, o fewn Costau Craidd, wedi gostwng o 46c i 42c (o gymharu â'r gost fesul aelod o boblogaeth y DU o fewn Costau Craidd a Chostau Digwyddiadau sydd wedi gostwng o 73c i 68c), gan amlygu'r ymgyrch barhaus ar gyfer lliniaru costau.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o gyllid. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar sawl maes gwaith allweddol, gan gynnwys caffael, rheoli contractau, rheoli perfformiad, a blaenoriaethu effeithiol. Rydym wedi rhoi tîm caffael newydd ar waith er mwyn i ni allu sicrhau gwerth gwell am arian gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr. Rydym hefyd wedi cryfhau ein cymorth ariannol i sicrhau ein bod yn gallu cynhyrchu amcangyfrifon a rhagolygon cadarn a chywir. Mae'r buddsoddiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod pob punt gyhoeddus yn cael ei defnyddio'n ddoeth.

**Mesur perfformiad**

Drwy ein Cynllun Corfforaethol rydym yn nodi gwelliannau y byddwn yn eu darparu a fydd o fudd i'r cyhoedd, pleidiau ac ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadol a seneddau. Ein nod yw mesur effaith y gwelliannau hyn gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad. Byddwn yn defnyddio cymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol, i ysgogi gwelliannau parhaus yn ein gweithdrefnau a'n sgiliau. Yn ddiofyn, bydd data perfformiad a data system yn cael eu casglu ar lefel pedair rhan y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – i gefnogi'r atebolrwydd am ein gwaith.

Mae ein dangosyddion perfformiad corfforaethol yn eistedd ochr yn ochr â grŵp o ddangosyddion sy'n dangos safon y systemau etholiadol. Gelwir y rhain yn ddangosyddion system ac maent yn mesur safon y system etholiadol yn ei chyfanrwydd ac nid ydynt yn arwydd o sut rydym yn perfformio fel sefydliad. Mae'r rhain yn arwain gweithredoedd gennym ni ac eraill (gan gynnwys aelodau etholedig, y llywodraeth, ymgyrchwyr a phleidiau, gweinyddwyr etholiadol a'r heddlu).


Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y dangosyddion perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cymru. Mae'r ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer pob un o'r Dangosyddion Perfformiad yn dangos ein bod wedi bodloni pob targed a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ac eithrio dau (gwelliant ar y pedwar targed a gollwyd yn 2022/23). Rhoesom hysbysiadau amserol o ganlyniad y ceisiadau i gofrestru gan bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn 80% o achosion, yn erbyn targed o 90%. Roedd hyn oherwydd nifer annisgwyl o uwch o geisiadau a gyflwynwyd a dim digon o staff i ymdrin â'r achosion hyn. Mae lliniariadau wedi cael eu gosod ar gyfer hyrddiadau

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

annisgwyl o geisiadau a geir yn y dyfodol. Nid oeddem ychwaith yn gallu cyrraedd ein dyddiadau targed ar gyfer gweithredu'r holl argymhellion archwilio mewnol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg , oherwydd capasiti ac argaeledd staff. Cwblhawyd yr argymhellion hyn erbyn eu dyddiad cau diwygiedig.

Fel rhan o waith ehangach newydd Cynllun Corfforaethol Senedd y DU, rydym yn bwriadu ailedrych ar ein dangosyddion perfformiad gan ystyried unrhyw newidiadau mewn blaenoriaeth neu bolisi. Bydd cyfres o drafodaethau a gweithdai'n cael eu cynnal o fewn pob maes yn y Comisiwn er mwyn nodi'r mesurau hyn.

Rydym yn cymeradwyo'r amcangyfrif amgaeedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 i'r Pwyllgor ac edrychwn ymlaen at ei drafod gyda chi pan fo'n briodol. Cysylltwch â Rhydian Thomas, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru os hoffech drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod yn y lle cyntaf.





**Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens CBE**
**Comisiynydd Etholiadol, Cymru**

**Vijay Rangarajan**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**